**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

15 Awst 2018

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf lle rydych yn gofyn inni egluro ein hymateb i sawl argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ar gyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru. Byddaf yn ymdrin â phob un o'ch pwyntiau fesul un.

Gallaf gadarnhau bod yr holl argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor wedi'u derbyn. Yn eich llythyr, rydych yn hoelio sylw ar ein hymateb i Argymhelliad 3, a ddiwygiwyd yn ddilynol i fod yn Argymhelliad 1. Mae sawl elfen i'r argymhelliad hwn. Er fy mod yn fodlon bod mesurau rheoli priodol yn eu lle ar gyfer y rhan fwyaf o'n prosiectau i ddarparu tystiolaeth o werth am arian, rwy'n derbyn bod angen cryfhau'r mesurau hyn i sicrhau gwerth am arian dan amgylchiadau penodol – er enghraifft, prosiectau nad yw eu contractau wedi bod yn destun cystadleuaeth neu lle nad yw taliadau yn ddibynnol ar gyflenwi. Byddai hynny'n cynnwys prosiectau lle y mae cwmnïau cysylltiedig neu daliadau cadw wedi'u talu. Byddwn yn cymryd camau i gryfhau mesurau penodol yn yr achosion hynny.

Rydym eisoes wedi cyflwyno mesurau llymach ar gyfer cyllid a ddarperir drwy grant Cyllid Busnes ac wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o wirio cwmnïau cysylltiedig wrth ddarparu cyllid.

**Cyfrif Ysgrow**

Rydych wedi holi ynghylch amseriad Llywodraeth Cymru i adennill y cyllid a roddwyd yn y cyfrif ysgrow i brynu tir.

Tynnwyd sylw at y mater o ddefnyddio cyfrif ysgrow yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Ebrill 2017, ac yn sgil hynny gofynnwyd i'r swyddogion arweiniol ymchwilio i weld a oes modd i Lywodraeth Cymru adennill y cyllid, naill o'r cyfrif ysgrow neu Cwmni

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HOVDC). Ar yr adeg honno, roedd y prosiect yn dal i fod yn bosibilrwydd ac roedd yn uchelgais gan y datblygwyr i gyflenwi'r prosiect heb gymorth gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad i hynny, ac oherwydd nad oedd disgwyl i’r contract rhwng HOVDC a Marcwis Caerwrangon i brynu'r tir ddod i ben tan ddiwedd mis Rhagfyr 2017, ni ystyriodd Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol adennill y cyllid ar yr adeg honno.

Ym mis Mehefin 2018, gofynnwyd i Geldards am y contract ffurfiol ar gyfer prynu'r tir er mwyn egluro’r sefyllfa o ran y cyfrif ysgrow. Geldards oedd y cyfreithwyr a ymgymerodd â'r broses diwydrwydd dyladwy ar brosiect Cylchffordd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd Geldards y contract i swyddogion y Llywodraeth ddiwedd mis Mehefin 2018. Bryd hynny, gwnaeth Geldards roi gwybod i’r swyddogion bod HOVDC wedi rhannu'r contract cyfan ym mis Chwefror 2016, fel rhan o bentwr mawr o ddogfennau a roddwyd mewn ystafell data electronig er mwyn hwyluso proses gyfreithiol a diwydrwydd dyladwy technegol y prosiect. Er bod y contract rhwng HOVDC a Marcwis Caerwrangon wedi'i roi yn yr ystafell ddata hon, dim ond ambell un oedd yn gallu mynd i mewn i'r ystafell er mwyn sicrhau cyfrinachedd masnachol. Nid oedd swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn cael mynd i mewn i'r ystafell yn ymwybodol bod y contract ymhlith y dogfennau a ddarparwyd.

Adolygwyd cynnwys y contract ar gyfer prynu'r tir gan y swyddogion pan ddaeth i law ym mis Mehefin 2018.  Mae'r contract yn cyfeirio at daliad cychwynnol o £200,000 gan y prynwr (HOVDC) i'r gwerthwr (Marcwis Caerwrangon), a rhyddhawyd £100,000 o'r arian hwn yn syth i'r gwerthwr, gyda'r swm o £100,000 a oedd yn weddill i'w gadw mewn cyfrif ysgrow gan drosgludiaethwr y gwerthwr hyd nes bod y cytundeb wedi'i gwblhau neu hyd ddiwedd cyfnod y contract. Mae'r contract yn nodi nad oes rhwymedigaeth ar y gwerthwr i ad-dalu'r arian a gedwir yn y cyfrif ysgrow oni bai bod y gwerthwr yn peidio â chydymffurfio â gofynion y contract. Gan nad oedd HOVDC wedi cwblhau'r pryniant cyn diwedd mis Rhagfyr 2017, methodd y contract a rhyddhaodd cyfreithiwr y gwerthwr y £100,000 oedd yn weddill i'r gwerthwr yn ôl gofynion y contract.

Rydym wedi cael cyngor cyfreithiol ar y mater hwn sy'n cadarnhau bod £200,000 wedi'u defnyddio i brynu'r tir, bod taliadau wedi'u gwneud yn unol â'r contract, nad oedd modd ad-dalu'r taliad cychwynnol o £100,000 dan unrhyw amodau ac na fyddai'r £100,000 pellach a gadwyd mewn cyfrif ysgrow yn ad-daladwy i HOVDC oni bai bod y gwerthwr yn peidio â chydymffurfio â gofynion y contract, ond ni ddigwyddodd hynny. Ar y sail honno, nid yw'r £200,000 neu unrhyw ran o'r swm hwn yn ad-daladwy i HODVC nac i Lywodraeth Cymru yn y pen draw. Nid oedd oedi wrth ymdrin â'r mater hwn, felly, wedi effeithio'n negyddol ar allu Llywodraeth Cymru i adennill yr arian.

Mae'r pwyntiau a nodir yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am flaendaliadau y gellir eu dychwelyd yn dal i fod yn gywir ond gwnaeth manylion y contract a ddarparwyd gan Geldards ym mis Mehefin 2018 wella dealltwriaeth swyddogion Llywodraeth Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru o’r mater. Ar ôl gweld y contract a'i ddeall, dim ond os oedd y gwerthwr, nid y prynwr, yn peidio â chydymffurfio â gofynion y contract y byddai’r blaendal wedi bod ad-daladwy.

Ni roddwyd y contract i swyddogion y Llywodraeth a ddarparodd dystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2017, ac nid oeddent yn ymwybodol bod y ddogfen wedi cael ei gweld gan staff y Llywodraeth yn flaenorol yn yr ystafell ddata.  Rhoddwyd yr wybodaeth a ddarparwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y sesiwn dystiolaeth

ym mis Mehefin 2017 yn ddidwyll ac nid oedd unrhyw fwriad i ddal tystiolaeth yn ôl neu i gamarwain y Pwyllgor.

Gofynnwyd hefyd am gyngor cyfreithiol ynghylch a allai Llywodraeth Cymru adennill unrhyw swm o'r Grant Datblygu Eiddo ond nid oedd unrhyw sail dros fedru gwneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dylai fod wedi cael y contract llawn ar gyfer prynu'r tir oddi wrth HOVDC a dylai'r contract hwnnw fod wedi'i gofnodi cyn bod y Grant Datblygu Eiddo yn cael ei dalu. Mae gwersi wedi'u dysgu o'r ymchwiliad hwn a bydd mwy o fesurau rheoli yn cael eu gweithredu pan fydd cyfrif ysgrow yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth briodol yn cael ei darparu'n brydlon gan y sawl sy'n cael yr arian. Bydd hynny'n ein helpu i ddeall y cytundeb sy'n ymwneud â'r cyfrif ysgrow yn llwyr a bod amodau'r cyllid yn sicrhau bod modd adennill yr arian yn briodol.

**Argymhelliad 6**

Gofynnoch am nifer yr achosion a fu yn ystod y blynyddoedd diwethaf pan fo swyddogion wedi mynegi pryder ynghylch cyfarwyddiadau gan swyddogion awdurdodi i wneud taliadau. Yn dilyn trafodaeth yn y Siambr ar 11 Gorffennaf 2018, anfonodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth lythyr atoch ar 27 Gorffennaf ar y mater hwn. Mae copi o'r llythyr ynghlwm (Atodiad 1) ac mae'n manylu'r prosesau y gall swyddogion eu defnyddio i fynegi pryderon fel hyn. Cafodd y broses chwythu'r chwiban ei hadolygu a'i chryfhau yn 2015/16 i wella cadernid y broses. Mae'r tabl isod yn manylu nifer yr achosion a ystyriwyd gan y broses honno ers 2015/16.

| **Blwyddyn Ariannol** | **Nifer yr achosion a ystyriwyd** |
|---|---|
| 2015/16 | 4 |
| 2016/17 | 6 |
| 2017/18 | 4 |

**Argymhelliad 13**


Gofynnoch ynghylch lefel y sicrhad y mae Llywodraeth Cymru yn ei disgwyl i adennill y ddyled o £7.3 miliwn gan HODVC sy'n deillio o warant benthyciad y Llywodraeth.

Mae gan Weinidogion Cymru arwystl sefydlog ac ansefydlog dros asedau HOVDC a'i holl is-gwmnïau. Mae HODVC wedi ymrwymo i Drefniant Gwirfoddol ar ran Cwmni (CVA) gyda'i ddyledwyr nad ydynt yn rhai sicredig, ac nid oes ganddo ddigon o asedau i alluogi Llywodraeth Cymru i adennill ei dyled. Amcangyfrifir bod y ddyled i Lywodraeth Cymru yn £12.62 miliwn ym mis Gorffennaf 2018. Mae'n debygol mai dim ond cyfran fach iawn o'r ddyled y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu ei hadennill os nad yw statws y cwmni yn newid.

Hyd yma, nid oes unrhyw ddatblygwyr arfaethedig wedi cyflwyno cais ffurfiol inni ryddhau'r sicrhad sydd gennym yn HODVC. Pe bai cais o'r fath yn dod i law, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl naill ai cyfraniad ariannol sylweddol neu fudd ariannol yn y sefydliad sy'n gwneud y cais hwnnw. Byddai'r math o fudd ariannol a gynigir, ei statws a'i flaenoriaeth o gymharu â buddsoddwyr a chredydwyr eraill yn cael eu hystyried yn ofalus, yn ogystal â'r goblygiadau o

ran lefel y sicrhad a ddarperir i Lywodraeth Cymru. Dan amgylchiadau o'r fath, byddem yn gofyn am gyngor arbenigol.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol